**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**13 MAWRTH 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth 13 Mawrth 2019

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: David Cox, Jean Davies Ron Davies, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Shotton a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Cynghorwyr: Haydn Bateman (ar ran George Hardcastle), Andy Dunbobbin (ar ran Mike Reece) a Paul Johnson (ar ran Ted Palmer)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr: Sian Braun, Adele Davies-Cooke a Jean Davies

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorwyr: Christine Jones a Patrick Heesom yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai; Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); a Rheolwr Budd-Daliadau

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 61. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd dim.

## 62. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2019.

Cywirdeb

Cofnod rhif 57: Strategaeth Dai a Chynllun Gweithredu – cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at ei sylw ar y fenter gymdeithasol ar Ynys Môn a gofynnodd i'r geiriad gael ei newid i ddarparu "adeiladau ffrâm coed" nid "adeiladau modiwlar".

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**63. ADRODDIAD DIWEDDARIAD YN DILYN ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL GRANT CYFLEUSTERAU ANABL 2017**

Cyflwynodd y Rheolwr Budd-Daliadau adroddiad i roi diweddariad ar gynnydd o ran y cynllun gweithredu rheoli gwasanaeth. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd bod Grant Cyfleuster i'r Anabl ar gael i berchnogion sy'n byw yn eu heiddo a thenantiaid preifat i helpu unigolion fyw gydag anabledd gyda'r gost o addasu eu cartrefi i'w galluogi i barhau i fyw yn eu heiddo. Y mwyafswm grant ar gael yng Nghymru oedd £36k. Lle roedd cais ar gyfer plentyn, neu bod yr ymgeisydd yn derbyn budd-daliadau cymhwysiad priodol, nid oedd yna brawf modd ac roedd cost yr addasiad hyd at fwyafswm y grant wedi'i roi. Ar gyfer ceisiadau eraill roedd maint y grant yn amrywio o sero i fwyafswm yn dibynnu ar gost y gwaith a gymeradwywyd ac amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd.

Dywedodd y Rheolwr Budd-Daliadau yn dilyn archwiliad mewnol bod bwrdd arolygiaeth wedi'i sefydlu ym mis Gorffennaf 2018 i sicrhau bod yna welliant digonol a brys ar gyfer darparu'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl. Roedd gwaith ar y gweill i fynd i'r afael a gweithredu'r argymhellion o fewn yr adroddiad archwilio ac adolygu darpariaeth gwasanaeth i wneud gwelliannau. Roedd cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru ynghlwm i'r adroddiad oedd yn manylu'r cynnydd a wnaed. Roedd y Rheolwr Budd-Daliadau yn adrodd ar y gwelliannau a'r newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl, fel y manylwyd yn yr adroddiad a dywedwyd y byddai gwaith yn parhau hyd 2019/20 i wella amseroedd ac ansawdd darpariaeth ymhellach a dod â'r gwasanaeth yn unol ag argymhellion yn dilyn Adroddiad Addasiadau Tai Swyddfa Archwilio Cymru a safonau gwasanaeth Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i sylw gan y Cadeirydd, eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau lle roedd angen addasiadau roeddent yn anaddas ym mhreswylfa presennol yr ymgeisydd ac roedd Grant Adleoli Cyfleusterau i'r Anabl ar gael ar gyfer costau symud person anabl i eiddo mwy addas.

Llongyfarchodd Aelodau'r Rheolwr Budd-Daliadau a'i thîm am eu gwaith a'u cyflawniadau i wella darpariaeth gwasanaeth Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Shotton a oedd cymorth pellach ar gael os oedd y gost addasiadau yn uwch na £36k o fwyafswm grant yn daladwy yng Nghymru. Eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau y byddai Grant Ychwanegol yn ôl Disgresiwn yn cael ei ystyried mewn amgylchiadau eithriadol, hyd at swm o £39k, lle roedd cost y gwaith gofynnol yn fwy na'r terfyn statudol o £36k. Hefyd, dywedodd y gellir cyflwyno benthyciad ychwanegol Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl, a oedd yn fenthyciad yn ôl disgresiwn a sicrhawyd yn erbyn gwerth yr eiddo i ddiwallu costau'r addasiad oedd yn uwch na'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl a'r grant ychwanegol Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl.

Ailategodd y Rheolwr Budd-Daliadau y byddai swm y grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn dibynnu ar gost y gwaith cymeradwy a lle bo'n briodol amgylchiadau ariannol ymgeisydd. Byddai prawf modd yn cael ei gynnal ar geisiadau ac eithrio ymgeiswyr sy'n blant lle roedd yr ymgeisydd hŷn yn derbyn gostyngiad Treth y Cyngor a/neu Budd-dal Tai.

Gofynnodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin a oedd anghenion tymor hir y plant yn cael eu cymryd i ystyriaeth i'w galluogi i barhau i fyw yn y breswylfa. Eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau bod canllawiau proffesiynol gan dimau Gwasanaethau Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol wedi eu hystyried i bennu cais ar gyfer Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl a chadarnhaodd bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd anghenion hirdymor yr unigolyn a'u teulu wedi'i gymryd i ystyriaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge am yr adolygiad o brosesau a fyddai'n gwella amseroedd darparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at yr adolygiad o gytundeb Fframwaith Gwasanaeth Lifft Stannah a gofynnodd a oedd yn ddigonol. Cadarnhaodd y Rheolwr Budd-Daliadau bod yr adolygiad wedi gweld bod y cytundeb yn cydymffurfio â gweithdrefnau CPR y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson a oedd offer ymaddasu a ddarparwyd ond nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach yn cael ei ailgylchu ac roedd yn ystyried lifft grisiau. Eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau lle roedd hynny'n bosibl roedd offer ymaddasu yn cael ei ailgylchu, yn amodol ar y profion angenrheidiol ac ati yn cael eu cynnal a chytunodd i edrych ar pa un a ellir mesur graddfa llwyddiant yr offer ailgylchu.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynnwys yr adroddiad a'r camau a gymerwyd hyd yma; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi gwaith parhaus yn y gwasanaeth i wella darpariaeth gwasanaeth i'n cwsmeriaid.

## 64. ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR AR GYFER 2018/19

Cyflwynodd y Cynghorydd Bernie Attridge adroddiad i roi crynodeb o berfformiad ar gyfer Chwarter 3 (Hydref i Rhagfyr 2018) sefyllfa 20018/19 ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 'Cyngor Cefnogol' a 'Cyngor Uchelgeisiol' sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Swyddog bod adroddiad monitro Chwarter 3 yn adroddiad cadarnhaol ac yn dangos bod 92% o weithgareddau yn gwneud cynnydd da gydag 85% yn debyg o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Roedd 67% o'r dangosyddion perfformiad wedi diwallu neu ragori ar eu targedau. Roedd risgiau yn cael eu rheoli gyda'r mwyafrif yn cael eu hasesu fel cymedrol (61%) a mân/ansylweddol 22%. Roedd yr adroddiad yn eithriad yn seiliedig ar adroddiad ac felly yn canolbwyntio ar y meysydd oedd yn tanberfformio.

Roedd y Cynghorydd Attridge yn adrodd ar y dangosyddion perfformiad canlynol oedd yn dangos statws Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer perfformiad presennol yn erbyn targed:

- Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl
- bydd lefelau dyledion yn codi os nad yw tenantiaid yn gallu fforddio talu eu rhent neu dreth y cyngor

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at dudalen 166 o'r adroddiad a soniodd am effaith Credyd Cynhwysol a'r caledi a achoswyd i nifer o unigolion a theuluoedd oherwydd yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau. Dywedodd bod angen rhoi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) am y pryderon.

Roedd y Rheolwr Budd-Daliadau yn cydnabod y pwyntiau a wnaed ac yn egluro bod gwaith wedi dechrau i nodi effaith Credyd Cynhwysol ar Denantiaid y Cyngor a'u cyfrifon rhent. Dywedodd fod tîm wedi gweithio gyda thenantiaid gynted â phosibl i nodi ac ymyrryd yn fuan (os yn briodol) i atal problemau rhag codi a rhoi mwy o siawns o'r cyfrif rhent yn dod yn ôl o dan reolaeth ac allan o ôl-ddyledion. Hefyd dywedodd fod gan y Cyngor bellach statws 'Partner y Gellir Ymddiried ynddo' gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau oedd yn golygu bod prosesau a llif gwybodaeth a thaliadau yn symlach ac yn awtomataidd. Roedd casgliadau treth y cyngor yn parhau dan bwysau. Dywedodd y Rheolwr Budd-Daliadau y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ar 26 Mehefin 2019.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Johnson am yr anawsterau a brofwyd gan bobl ar incwm isel a'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor ac adolygu sut yr oedd yn cael ei hysbysebu. Mewn ymateb, cytunodd y Rheolwr Budd-Daliadau i adolygu gwerth hysbysebu'r cynllun yn unol ag ymgyrch Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi Adroddiad Monitro 2018/19 Cynllun y Cyngor Chwarter 3.

## 65. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol i'w ystyried. Cytunodd y Pwyllgor ar yr eitemau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 1 Mai, gydag adroddiad ychwanegol ar Adfywio Canol Tref.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at ei awgrym blaenorol ar gyfer adroddiad ar Fesuryddion Deallus i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor. Dywedodd ei fod wedi derbyn pryderon gan nifer o drigolion am newid cyflenwyr ynni, gosod a darlleniadau mesurydd anghywir. Awgrymodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) i nodyn briffio ar osod mesuryddion deallus ac unrhyw heriau a brofwyd gael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson at achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei Ward ac awgrymodd bod angen adolygiad o Un Llwybr Mynediad at Dai. Dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) bod hwn wedi'i gynnal yn ddiweddar ac awgrymodd mai'r hyn oedd ei angen oedd adroddiad yn cynnwys rheoli tenantiaeth gyda phwyslais arbennig ar orfodaeth. Cytunodd y Cynghorydd Hutchinson y byddai hyn yn ddefnyddiol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, wrth i'r angen godi.

## 66. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 10.57 am)

....................................................

**Cadeirydd**